Y Bwrdd Taliadau
**Papur tystiolaeth**

# Cymorth Llety a Theithio i Seneddwyr

Rhagfyr 2023

## Mae'r papur hwn yn ystyried sut mae deddfwrfeydd ledled y DU ac yn rhyngwladol yn darparu cymorth llety a theithio i Aelodau.

Mae'r papur hwn yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer adolygiad y Bwrdd Taliadau Annibynnol o Daliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau. Mae Ffrwd Waith Dau yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y Lwfans Gwariant ar Lety Preswyl a'r darpariaethau teithio a nodir ym Mhenodau Pedwar a Phump o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau.

Mae rôl seneddwr yn unigryw gan ei bod yn aml yn gofyn i'r Aelodau dreulio rhan o'u hwythnos i ffwrdd o'u prif gartref. Fel y cyfryw mae llawer o ddeddfwrfeydd yn gwneud darpariaeth i'r Aelodau hawlio costau llety sy'n agos at y senedd ei hun. Yn gyffredinol, mae costau teithio i'r Aelodau hefyd yn cael eu talu, ar gyfer teithiau i'r senedd ac o fewn etholaethau.

Mae'r papur hwn yn rhoi cipolwg ar sut mae'r darpariaethau hyn yn cael eu cynllunio a'u gweithredu. Mae cymharu gwerth ariannol cymorth o'r fath yn uniongyrchol yn heriol, gan y bydd pob senedd yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r cyd-destun economaidd y maent yn gweithredu ynddo. Fodd bynnag, gall y gymhariaeth hon gefnogi trafodaethau ynghylch y model cymorth y gallai fod ei angen ar Aelodau o'r Senedd yn y Seithfed Senedd a'r egwyddorion ar gyfer cynllunio ac adolygu cymorth o'r fath.

# Cynnwys


**1. Crynodeb gweithredol ....4**

**2. Cyflwyniad....7**

Adolygiadau thematig ....7

**3. Lwfans Gwariant ar Lety Preswyl a Theithio - Senedd....9**

Aros dros nos yng Nghaerdydd ....9

Aros dros nos y tu allan i Gaerdydd ....11

Teithio ....11

Teithio o fewn Cymru ....11

Teithio y tu allan i Gymru ....12

Teithio rhyngwladol ....12

Teithio gan bartneriaid a phlant ....12

Teithiau gan staff yr Aelodau ....12

**4. Cymorth Llety a Theithio: Deddfwrfeydd eraill y DU....13**

Senedd y DU: IPSA ....13

Costau llety....13

Taliad Byw Ardal Llundain ....16

Costau Teithio a Chynhaliaeth ....16

Senedd yr Alban....18

Costau llety....18

Llety dros nos y tu allan i Gaeredin ....19

Teithio....19

Gogledd Iwerddon ....20

**5. Cymorth Llety a Theithio: Enghreifftiau rhyngwladol ....21**

Iwerddon – Yr Oireachtas ....21

Seland Newydd ....23

Llety yn Wellington i'r Aelodau ... 24
Llety heb fod yn Wellington ... 25
Cynnydd mewn treuliau llety o dan rai amgylchiadau ... 25
Llety a theithio teulu yr Aelodau ... 25
Ymgeiswyr etholiadol cymwys ... 26
Teithio i'r Aelodau ... 26
Teithio a llety rhyngwladol ... 27
Senedd Victoria ... 28
Lwfans llety seneddol ... 29
Lwfans cerbyd modur ... 29
Lwfans teithio ... 29
Lwfans trafnidiaeth fasnachol ... 30
Lwfans teithio rhyngwladol ... 30
Canada – Tŷ'r Cyffredin ... 30
Cyfrif Costau Statws Teithio ... 32
Cyllideb Swyddfa'r Aelod ... 34
System Pwyntiau Teithio ... 34
Norwy ... 36
Denmarc ... 37
Sweden ... 38
**6. Casgliad ... 40**
**7. Atodiad A: Cymharu Deddfwrfeydd y DU ... 42**
**8. Atodiad B: Cymharu enghreifftiau rhyngwladol ... 44**

# 1. Crynodeb gweithredol

Mae rôl seneddwr yn unigryw gan ei bod yn aml yn gofyn i'r Aelodau dreulio rhan o'u hwythnos i ffwrdd o'u prif gartref. Fel y cyfryw mae llawer o ddeddfwrfeydd yn gwneud darpariaeth i'r Aelodau hawlio costau llety sy'n agos at y senedd ei hun. Yn gyffredinol, mae costau teithio i'r Aelodau hefyd yn cael eu talu, ar gyfer teithiau i'r senedd ac o fewn etholaethau.

Mae'r papur hwn yn rhoi cipolwg ar sut mae'r darpariaethau hyn yn cael eu cynllunio a'u gweithredu ar draws nifer o ddeddfwrfeydd yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae cymharu gwerth ariannol cymorth o'r fath yn uniongyrchol yn heriol, gan y bydd pob senedd yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r cyd-destun economaidd y maent yn gweithredu ynddo. Fodd bynnag, gall y gymhariaeth hon gefnogi trafodaethau ynghylch y model cymorth y gallai fod ei angen ar Aelodau o'r Senedd yn y Seithfed Senedd a'r egwyddorion ar gyfer cynllunio ac adolygu cymorth o'r fath.

Mae nifer o ddeddfwrfeydd wedi'u hadolygu ar gyfer y papur hwn, gan gynnwys pedair deddfwrfa'r DU, Seland Newydd, Victoria (Awstralia), Iwerddon, Canada, Norwy, Denmarc a Sweden. Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar-lein, mae'n amlwg bod systemau ar gyfer ad-dalu costau teithio a llety y mae seneddwyr yn mynd iddynt yn gymhleth.

O'r enghreifftiau a adolygwyd ar gyfer y papur hwn, darperir ar gyfer lwfansau llety a theithio yn aml mewn deddfwriaeth, gyda chyrff taliadau perthnasol yn gwneud penderfyniadau ynghylch y lefelau y gosodir lwfansau o'r fath arnynt, unrhyw feini prawf ar gyfer hawlio ad-daliad a sut y bydd y system yn gweithredu.

Nid yw'n ymddangos bod unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng systemau etholiadol etholaethau un aelod ac aml-aelod. Mae gan bob senedd a adolygwyd system ar waith gyda'i helfennau unigryw ei hun, sy'n canolbwyntio ar gonsensws cyffredinol y dylai'r Aelodau gael ad-daliad am gostau llety a chostau teithio rhesymol yr eir iddynt o ganlyniad i gyflawni eu dyletswyddau seneddol, gan gynnwys gallu aros dros nos yn agos at y senedd os maent fel arfer yn byw y tu hwnt i bellter cymudo.

Mae rhai seneddau yn cyfuno gwahanol elfennau o deithio a llety yn un lwfans, tra bod gan eraill lu o lwfansau ar gyfer llety tra'n mynychu'r senedd, llety mewn etholaethau neu leoliadau domestig eraill, teithio domestig a theithio a llety rhyngwladol.

Mae rhai nodweddion cyffredin ar draws y seneddau enghreifftiol a gwmpesir yn y papur hwn:

- Darpariaethau ar gyfer llety wrth fynychu senedd, naill ai drwy lwfansau neu adeiladau sy'n eiddo i'r senedd. Yn aml mae opsiynau i'r Aelodau naill ai brydlesu eiddo (llety parhaus) neu aros mewn gwestai (llety masnachol).
- Mae cymhwysedd ar gyfer cymorth ar gyfer llety wrth fynychu senedd yn gysylltiedig â phellter prif breswylfa neu etholaeth Aelod o senedd.
- Ad-dalu rhai costau cysylltiedig i'r Aelodau sy'n rhentu eiddo i fynychu senedd; er bod yr hyn a gaiff ei gynnwys yn dra gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o seneddau yn ad-dalu costau cyfleustodau, ffôn a band eang.
- Peth darpariaeth i briod/partner a dibynyddion deithio i ymweld â'r Aelodau yn eu preswylfa eilaidd.
- Cyfradd unrhyw lwfans llety sy'n cael ei fynegeio gan ddefnyddio'r farchnad rhentu mewn ardal ganolog i senedd.
- Gofyniad bod yn rhaid i unrhyw gostau teithio ac aros dros nos a gaiff eu hawlio fod mewn perthynas â'r Aelodau yn cyflawni eu swyddogaethau seneddol.
- Darpariaethau teithio a llety ychwanegol i ddeiliaid swyddi, gan gynnwys gweinidogion, llefarwyr ac arweinwyr y gwrthbleidiau.
- Mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer unrhyw deithio rhyngwladol, ond nid bob amser gan wasanaethau seneddol. Yn Seland Newydd, mae angen cymeradwyaeth gan ddeiliad swydd perthnasol o fewn plaid yr Aelod.
- Darparu tocyn trên am ddim i'r Aelodau.

Mae hefyd nifer o nodweddion llai cyffredin sy'n nodedig:

- Mae cenhedloedd Nordig yn ymddangos yn unigryw yn yr ystyr eu bod yn darparu fflatiau sy'n eiddo i'r senedd i Aelodau cymwys drwy gydol eu cyfnod yn y swydd.
- Mae nifer fach o seneddau a adolygwyd yn rhoi'r dewis i'r Aelodau ddynodi cartref yn eu hetholaeth yn ail gartref yn lle cartref yn agos at y senedd, a gellir ad-dalu'r costau hyn.
- Mae system Denmarc yn canolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae ystyried trafnidiaeth gyhoeddus yn llywio dyraniad tai sy'n eiddo i'r senedd a pha gostau teithio y gellir eu had-dalu.
- Mae rhai o'r systemau a adolygwyd yn cymryd maint daearyddol etholaethau i ystyriaeth wrth bennu lefelau lwfans ar gyfer costau teithio. Mae gan yr Aelodau sydd ag etholaethau mwy o faint yr hawl i lwfans mwy yn yr achosion hyn, i'w galluogi i deithio o amgylch eu hetholaeth. Mae'r systemau hyn hefyd yn caniatáu i'r Aelodau hawlio costau am lety dros nos yn eu hetholaeth os bernir ei fod yn rhesymol, sy'n aml yn gysylltiedig â bod dros bellter penodol o'u cartref.

- Mae dulliau gwahanol iawn o roi cymorth i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu sy'n anabl. O'r wybodaeth sydd ar gael, nid yw bob amser yn glir pa gymorth ychwanegol o'r fath a ddarperir, y tu hwnt i ddarpariaethau i briod/partner hawlio rhai costau cyfyngedig o ran teithio a llety. Mae rhai systemau yn nodi y gall unrhyw un sydd ag anghenion ychwanegol drafod hyn ar sail un-i-un. Mae rhai o’r enghreifftiau Nordig yn ystyried cyfrifoldebau gofalu a materion iechyd wrth benderfynu ar ddyraniad adeilad sy’n eiddo i senedd.
- Mae nifer fach o’r enghreifftiau a gynhwyswyd yn cymryd presenoldeb yn y senedd i ystyriaeth, gyda chosb i’r rhai nad ydynt yn mynychu am nifer diffiniedig o ddiwrnodau’r flwyddyn.
- Mae Seland Newydd yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer lwfansau wedi'u huwchraddio o dan rai amgylchiadau, gan gynnwys digwyddiadau mawr ac archebion hwyr na ellir eu hosgoi, a all effeithio ar gyfraddau gwestai.

# 2. Cyflwyniad

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd) yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar gyflog a chymorth uniongyrchol i Aelodau o'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau ar sail tair egwyddor arweiniol:

1. Dylai ein penderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.
2. Dylai ein penderfyniadau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau.
3. Dylai ein penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cynrychioli gwerth i'r trethdalwr.

Cyn pob tymor Senedd newydd, bydd y Bwrdd yn gwneud Penderfyniad newydd ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Mae'r Penderfyniad hwn yn nodi'r system o gydnabyddiaeth a chymorth ariannol i'r Aelodau. Bob blwyddyn mae adolygiad blynyddol yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i unrhyw lwfansau, ac eithrio Cyflogau'r Aelodau (oni bai bod amgylchiadau eithriadol).

## Adolygiadau thematig

Mae'r Bwrdd wrthi'n cynnal rhaglen o adolygiadau thematig, sy'n edrych yn fanylach ar elfennau o'r Penderfyniad. Mae'r gwaith hwn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun diwygio arfaethedig y Senedd, a allai newid maint a chyfansoddiad y Seithfed Senedd yn sylweddol.

Mae pum adolygiad:

- Symleiddio
- Ffyrdd o Weithio
- Cymorth Staffio
- Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol
- Taliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau

Mae'r Adolygiad o Daliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau yn cwmpasu cyfran fawr o'r Penderfyniad gyda meysydd ffocws ar wahân, ac felly mae wedi'i rannu'n dair ffrwd waith benodol:

- Ffrwd Waith Un: Cyflogau ac Amodau’r Aelodau
- Ffrwd Waith Dau: Gwariant ar Lety Preswyl a Theithio
- Ffrwd Waith Tri: Aelodau sy’n Gadael eu Swyddi

Mae’r papur hwn yn canolbwyntio ar Ffrwd Waith Dau, ac yn dwyn ynghyd wybodaeth am gymorth llety a theithio a ddarperir i Aelodau ar draws nifer o wahanol seneddau. Mae’r papur yn ystyried nifer o wahanol fathau o gymorth:

- Cymorth ariannol ar gyfer llety wrth fynychu'r senedd
- Cymorth ariannol ar gyfer llety at ddibenion seneddol eraill
- Cymorth ariannol ar gyfer teithio i senedd ac at ddibenion seneddol eraill

# 3. Lwfans Gwariant ar Lety Preswyl a Theithio - Senedd

Mae Pennod Pedwar y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn darparu ar gyfer "digolledu'r Aelodau am gostau y mae'n rhaid iddynt eu hysgwyddo mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau Aelod, gan gynnwys aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartrefi."

## Aros dros nos yng Nghaerdydd

Yn dibynnu ar leoliad eu prif gartref, mae'r Aelodau'n gymwys i gael Lwfans Gwariant ar Lety Preswyl i'w galluogi i aros dros nos yn ardal Caerdydd.

- Ystyr **ardal fewnol** yw'r ardal o fewn ffiniau rhanbarthau etholiadol Gorllewin De Cymru, Canol De Cymru a Dwyrain De Cymru, ac eithrio'r ardaloedd hynny sydd wedi'u lleoli yn yr ardal ryngol.
- Mae'r **ardal ryngol** yn cynnwys etholaethau Gŵyr, Castell-nedd, Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe.
- Yr **ardal allanol** yw'r ardal o fewn ffiniau rhanbarthau etholiadol Canolbarth a Gorllewin a Gogledd Cymru.

Nid yw'r Aelodau y mae eu prif gartref wedi'i leoli yn yr ardal fewnol fel arfer yn gymwys am Lwfans Gwariant ar Lety Preswyl, ond o dan amgylchiadau eithriadol gallant wneud cais i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau am ad-daliad ar gyfer cost gwesty yn ardal Caerdydd.

Gall yr Aelodau y mae eu prif gartref wedi'i leoli yn yr ardal ryngol hawlio uchafswm o hyd at £7,920[1] ar gyfer llety dros nos yn ardal Caerdydd ym mhob blwyddyn. Yr uchafswm y gellir ei hawlio fesul noson yw £110 ar gyfer pob math o westy. Fel arall, gall yr Aelodau ddefnyddio'r lwfans tuag at gostau eiddo ar rent a/neu filiau yn ardal Caerdydd.

Ar gyfer yr Aelodau y mae eu prif gartref wedi'i leoli yn yr ardal allanol, mae nifer o opsiynau ar gael.

- Opsiwn A: Rhentu eiddo wedi'i ddodrefnu

[1] Mae'r ffigurau'n seiliedig ar Benderfyniad 2023-24 ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau

Rhaid i'r Aelodau rentu eiddo yn ardal Caerdydd[2] a gall hawlio hyd at £11,760 tuag at rent (gan gynnwys unrhyw dâl rheoli neu rent tir; yn seiliedig ar £980 y mis).

Gall yr Aelodau hefyd hawlio nifer o 'gostau cysylltiedig', megis y dreth gyngor, biliau cyfleustodau, band eang, trwydded deledu, yswiriant ac unrhyw fesurau diogelwch uwch.

Gall yr Aelodau "sy'n gallu dangos bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu ar gyfer dibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda nhw yn ardal Caerdydd hawlio hyd at £1,735 yn ychwanegol y flwyddyn i dalu am gost uwch llety addas."

- Opsiwn B: Treuliau mewn perthynas â chartref a ddarperir ar draul yr Aelod ei hun

  Gall yr Aelodau hawlio'r costau cysylltiedig fel o dan Opsiwn A.

- Opsiwn C: Treuliau mewn perthynas â llety dros nos arall

  Gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau, gall yr Aelodau hawlio costau gwesty yn lle hynny. Mae'r uchafswm y gellir ei hawlio am y flwyddyn yr un peth ag o dan Opsiwn A, a chymhwysir y cap nosweithiol fel gydag unrhyw arhosiad arall mewn gwesty.

- Opsiwn D: Trefniadau pontio

  Mae'n nodi darpariaethau ar gyfer yr Aelodau a oedd yn Aelodau yn union cyn diddymu'r Trydydd Cynulliad ac nad ydynt wedi peidio â bod yn Aelodau ers hynny. Mae hyn yn galluogi'r Aelodau cymwys i hawlio costau yn erbyn rhent neu log morgais.

[2] Mae ardal Caerdydd yn golygu unrhyw bwynt o fewn radiws pum milltir o'r Senedd/Tŷ Hywel

## Aros dros nos y tu allan i Gaerdydd

Gall yr Aelodau hawlio costau aros dros nos mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau pan fo angen iddynt aros yn rhywle heblaw eu prif gartref neu lety yng Nghaerdydd.

Mae’r uchafswm nosweithiol wedi'i gapio ar £174 ar gyfer Llundain a £110 mewn mannau eraill. Gall yr Aelodau hawlio cost pryd o fwyd gyda’r nos a pharcio ar wahân.

Ar gyfer arhosiad dros nos y tu allan i'r DU, mae angen cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau.

Nid yw unrhyw lety sy'n ymwneud â busnes y Pwyllgor wedi'i gynnwys yn y Penderfyniad.

## Teithio

Mae'r darpariaethau ar gyfer teithio i'r Aelodau wedi'u nodi ym Mhennod Pump y Penderfyniad. Ymdrinnir â thri math o deithio:

1. Teithio o fewn Cymru
2. Teithio mewn mannau eraill yn y DU ond y tu allan i Gymru
3. Teithio y tu allan i'r DU

Ar gyfer pob math o deithio, disgwylir i’r Aelodau deithio gan ddefnyddio’r dull mwyaf cost-effeithiol, gan gymryd i ystyriaeth union gost y siwrnai ac unrhyw gostau yn sgil aros dros nos. Mae disgwyl hefyd i’r Aelodau roi sylw i System Reoli Amgylcheddol y Senedd, sy’n ceisio annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, beiciau neu drafnidiaeth gymunedol.

### Teithio o fewn Cymru

Gall yr Aelodau hawlio am deithio rhwng eu prif gartref, y Senedd a swyddfeydd etholaethol neu ranbarthol ac wrth deithio er mwyn galluogi’r Aelod i gyflawni ei ddyletswyddau drwy unrhyw lwybr rhesymol.

- Mae milltiredd yn daladwy am deithio mewn car personol, beic modur a beic ar gyfraddau milltiredd a gymeradwyir gan CThEF.
- Gellir hawlio costau tacsi “os nad yw’n rhesymol ymarferol i’r Aelod deithio heblaw mewn tacsi”; caiff yr Aelodau eu had-dalu am y costau gwirioneddol.

- Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir hawlio costau llogi car a chyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau; gall yr Aelodau hawlio'r costau gwirioneddol.
- Gellir hawlio costau trenau ar sail costau gwirioneddol; disgwylir i'r Aelodau deithio yn ôl dosbarth safonol oni bai bod angen amlwg i beidio â gwneud hynny.
- Gellir hawlio teithiau awyr yn seiliedig ar gostau gwirioneddol.

## Teithio y tu allan i Gymru

Hyd at 2023-24, roedd angen cymeradwyaeth ymlaen llaw i deithio y tu allan i Gymru. Mae cynigion fel rhan o adolygiad blynyddol y Penderfyniad ar gyfer 2024-25 yn cynnwys dileu'r gofyniad hwn. Rhaid teithio er mwyn galluogi'r Aelod i gyflawni ei ddyletswyddau ac mae'r un lefelau lwfans ac egwyddorion cyffredinol yn gymwys fel gyda theithio yng Nghymru.

## Teithio rhyngwladol

Rhaid i'r Aelodau wneud cais i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau i deithio y tu allan i'r DU, gan anfon achos busnes yn egluro'r rhesymeg dros ymweld â'r wlad benodol honno, nifer yr arosiadau dros nos sydd eu hangen a sut mae'r daith yn angenrheidiol i alluogi'r Aelod i gyflawni ei ddyletswyddau.

Gall yr Aelodau hawlio costau gwirioneddol teithio ac mae ganddynt hawl i lwfans cynhaliaeth yn amodol ar uchafswm cost y tocyn awyren dwyffordd, ynghyd â phum noson o lety, prydau bwyd a theithio achlysurol.

## Teithio gan bartneriaid a phlant

Gall yr Aelodau hawlio'r costau a ddaw i'w rhan os bydd eu partner a/neu unrhyw blentyn o dan 18 oed yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus rhwng Caerdydd a'u hetholaeth neu ranbarth, neu Gaerdydd a phrif gartref yr Aelod. Gellir hawlio 12 o deithiau sengl y flwyddyn. Gellir gwneud ceisiadau hefyd am filltiroedd ar gyfer teithiau o'r fath mewn car.

## Teithiau gan staff yr Aelodau

Gall yr Aelodau hawlio am hyd at 18 taith ddwyffordd y flwyddyn, ar drafnidiaeth gyhoeddus neu'r milltiroedd ar gyfer teithio mewn car, ar gyfer staff rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod.

# 4. Cymorth Llety a Theithio: Deddfwrfeydd eraill y DU

Gwneir darpariaeth ar gyfer ad-dalu rhai costau llety a theithio ym mhob un o'r tair deddfwrfa arall yn y DU. Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r trefniadau hyn fel y'u nodir yn y cynlluniau a'r penderfyniadau a gyhoeddwyd.

## Senedd y DU: IPSA

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ad-dalu costau llety a theithio wedi'i nodi yng *Nghynllun Costau Busnes a Staffio Aelodau Seneddol*[3].

### Costau llety

Mae'r gyllideb costau llety wedi'i dylunio i gwrdd â'r costau yr eir iddynt gan Aelodau Seneddol yn sgil gweithio o ddau leoliad parhaol. Nodir y darpariaethau hyn ym Mhennod Pedwar y Cynllun. Ymdrinnir â chostau gwesty sy'n gysylltiedig â theithio a chynhaliaeth ym Mhennod Naw.

Nid yw costau llety yn daladwy i Aelodau Seneddol ardal Llundain nac i Aelodau Seneddol sy'n meddiannu llety 'gras a ffafr' yn Llundain yn rhinwedd unrhyw swydd arall sydd ganddynt.

Gall Aelodau Seneddol hawlio costau llety ar gyfer un o'r canlynol ar y tro:

- Gwesty
- Taliadau rhent a chostau cysylltiedig
- Costau cysylltiedig dim ond pan fo'r Aelod Seneddol yn berchen ar ei eiddo

Gall Aelodau Seneddol hawlio am gostau llety mewn perthynas ag un eiddo mewn un lleoliad, a all fod yn ardal Llundain neu etholaeth yr Aelod.

[3] IPSA *The Scheme of MPs' Staffing and Business Costs 2023-24* (Saesneg yn unig) *(diwygiwyd ym mis Gorffennaf 2023)* https://assets.ctfassets.net/nc7h1cs4q6ic/1RGgHNyfnvqhVRXlFTZvDk/583a6973a70ff7707f6ea0686928a6fd/Sixteenth_Edition_of_the_Scheme_2023-24.pdf

Mae costau cysylltiedig yn cynnwys:

- Biliau cyfleustodau
- Y dreth gyngor
- Rhent tir a thaliadau gwasanaeth
- Yswiriant adeiladau (ar gyfer y rhai sy'n berchen ar eu heiddo)
- Prynu, gosod a chynnal a chadw mesurau diogelwch 'arferol' y tu hwnt i'r rhai a ddarperir gan Dŷ'r Cyffredin
- Gosod llinell ffôn llinell dir, rhentu llinell a thaliadau defnydd
- Gosod cysylltiad band eang a chostau defnydd

**Nid** yw costau cysylltiedig yn cynnwys glanhau, garddio, prynu neu gynnal a chadw dodrefn, yswiriant cynnwys cartref, gwasanaethau teledu neu drwyddedau teledu.

Yng Nghynllun 2023-24, roedd cyllidebau costau llety fel a ganlyn:

- Llety (Rhentu neu Westy) yn Llundain: £26,840
- Llety (Rhentu neu Westy) y tu allan i Lundain: £19,090
- Costau Cysylltiedig â Llety yn Unig (Aelodau Seneddol nad ydynt wedi'u lleoli yn Llundain): £6,330

Os bydd Aelod Seneddol yn dewis aros mewn gwesty yn hytrach na rhentu eiddo, gosodir cap ar y gost nosweithiol. Gall yr Aelodau grwpio gyda'i gilydd nifer o nosweithiau yn ystod un arhosiad, lle mae'r costau'n amrywio ar nosweithiau gwahanol, a hawlio'r swm llawn os nad yw'r cyfartaledd y noson yn fwy na'r terfyn nosweithiol. Y cap nosweithiol yn 2023-24 yw £210 ar gyfer Llundain.

### Cymorth ychwanegol i Aelodau Seneddol sydd â dibynyddion

Mae cyllideb costau llety Aelodau Seneddol sydd â dibynyddion yn gallu cynyddu os ydynt yn aros mewn llety rhent neu westy gyda dibynyddion, hyd at uchafswm o dri chodiad. Nid yw hyn yn berthnasol pan fydd Aelod yn hawlio costau cysylltiedig yn unig ar gyfer eiddo y mae'n berchen arno.

Mae'r Cynllun yn diffinio dibynyddion fel a ganlyn:

> *"For the purposes of this Scheme, MPs will be deemed to have caring responsibilities for a dependant where they:*
>
> *Have parental responsibility for a dependant child of up to the age of 18 and/or*
>
> *Are the primary carers for a family member in receipt of one of the following benefits:*
>
> *a. Attendance Allowance*
>
> *b. Disability Living Allowance at the middle or highest rate for personal care*
>
> *c. Personal Independence Payment at the standard or enhanced rate for daily living or*
>
> *d. Constant Attendance Allowance at or above the maximum rate with an Industrial Injuries Disablement Benefit or basic (full day) rate with a War Disablement Pension"*

Yng Nghynllun 2023-24, y codiad llety ar gyfer Aelodau Seneddol sydd â dibynyddion yw £6120 y flwyddyn. Ar gyfer llety rhent, gall Aelod gael hyd at 3 codiad ar y mwyaf.

### Cyfrifoldeb dros gytundebau rhentu

Mae Aelodau Seneddol yn gyfrifol am wirio telerau ac amodau eu cytundebau, gan gynnwys unrhyw daliadau gwasanaeth, cymalau cosb neu gymalau eraill a allai arwain at gostau ychwanegol. Mae'n ofynnol i'r Aelodau hysbysu'r IPSA ar unwaith pan fydd cytundeb rhentu yn dechrau, yn dod i ben neu'n cael ei adnewyddu, neu os oes unrhyw newidiadau i'r contract.

Mae disgwyl iddynt hefyd drafod cymal yn eu cytundeb rhentu i ganiatáu iddynt roi deufis o rybudd os bydd newid mewn amgylchiadau, megis gadael Senedd y DU. Dim ond yn ystod y cyfnod dirwyn i ben ar ôl gadael Senedd y DU y gallant hawlio am rent a chostau cysylltiedig.

### Mathau eraill o gymorth gyda chytundebau rhentu

Gall Aelodau Seneddol wneud cais i'r IPSA am fenthyciad i dalu am unrhyw flaendal sy'n daladwy ar ddechrau tenantiaeth; ni chaiff hwn ei dynnu o'r gyllideb costau llety. Ni chaiff gwerth benthyciad o'r fath fod yn fwy na'r blaendal isaf a nodir yn y cytundeb rhentu neu chwarter y gyllideb costau llety blynyddol priodol ar gyfer y lleoliad.

Mae Aelodau Seneddol yn gyfrifol am sicrhau dychwelyd y blaendal ac ad-dalu’r swm yn llawn i’r IPSA ddim hwyrach na mis ar ôl y dyddiad y daw’r denantiaeth i ben neu ddiwedd y cyfnod dirwyn i ben.

## Taliad Byw Ardal Llundain

Bwriad Taliad Byw Ardal Llundain yw cyfrannu at gostau byw ychwanegol yn ardal Llundain ac mae'n daladwy yn fisol. Dim ond Aelodau Seneddol Ardal Llundain all ei hawlio. Mae Taliad Byw Ardal Llundain - Ychwanegol ar gael ar gyfer Aelodau Seneddol Ardal Llundain allanol.

Yng Nghynllun 2023-24, roedd gwerth y taliadau hyn fel a ganlyn:

- Taliad Byw Ardal Llundain: £4,435
- Taliad Byw Ardal Llundain - Ychwanegol: £1,575

## Costau Teithio a Chynhaliaeth

Gall Aelodau Seneddol hawlio costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â theithio pan gânt eu hysgwyddo i gefnogi eu swyddogaethau seneddol. Bydd yr IPSA yn talu am hawliadau sy’n ymwneud â:

- Theithiau rhwng Llundain ac etholaeth yr Aelod
- Teithiau o fewn etholaeth yr Aelod
- Teithio i leoliad arall yn y DU
- Teithiau yn ôl ac ymlaen o wledydd eraill yn Ewrop

Ni ellir hawlio unrhyw deithio rhyngwladol arall oni bai bod Senedd y DU yn cael ei galw’n ôl.

Ni all Aelodau Sendddol hawlio costau cymudo (h.y. y daith rhwng swyddfa’r etholaeth a phreswylfa’r etholaeth, neu’r daith rhwng San Steffan a’u preswylfa yn Ardal Llundain). Gall Aelodau Seneddol nad ydynt wedi’u lleoli yn ardal Llundain ddewis hawlio am deithio i San Steffan o'r tu allan i Lundain yn ddyddiol yn lle hawlio costau llety.

Gall Aelodau Seneddol hawlio am deithiau gan eu priod neu bartner a dibynyddion rhwng eu hetholaeth a Llundain, neu am daith unrhyw ofalwr gofynnol heblaw eu priod neu bartner.

Gall staff Aelodau Seneddol hawlio am yr un teithiau ag Aelodau heblaw am deithio yn ôl ac ymlaen o wledydd yn Ewrop.

Mae costau trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig i gyfradd tocyn dosbarth economi. Ar gyfer teithio ar drên gall Aelodau Seneddol hawlio am gost tocyn ‘ar agor safonol unrhyw bryd’. Telir cyfraddau milltiredd ar gyfer ceir, beiciau modur neu feiciau ar gyfraddau CThEF.

Dim ond pan fo angen taith mewn tacsi y gellir hawlio costau tacsi. Mae’r Cynllun yn nodi’r hyn a ystyrir yn angenrheidiol:

- Nid oes unrhyw drafnidiaeth resymol arall ar gael
- Mae dulliau eraill yn anymarferol oherwydd beichiogrwydd, anabledd, salwch neu anaf i'r Aelod neu aelod o staff
- Mae Aelodau Seneddol wedi bod yn gweithio ar fusnes seneddol ar ôl 22:00.

Dim ond lle nad oes dewis arall rhesymol y gellir defnyddio ceir llogi; gall Aelodau Seneddol hawlio cost llogi’r cerbyd, unrhyw danwydd a ddefnyddir ac yswiriant a brynir.

Gellir hawlio costau gwesty pan fydd Aelod wedi teithio fel rhan o’i weithgareddau seneddol ac y byddai’n afresymol iddo ddychwelyd i unrhyw breswylfa yn Llundain neu ei etholaeth. Dim ond pan fydd Aelodau Seneddol wedi bod yn gweithio ar faterion seneddol ar ôl 22:00 y gellir gwneud hawliadau am westai yn Llundain o dan gyllidebau teithio a chynhaliaeth. Mae hawliadau yn amodol ar gap nosweithiol o £210 yn Llundain / Ewrop a £150 yng ngweddill y DU.

Mae cyfraddau cynhaliaeth hefyd yn amodol ar uchafswm cost o £25 am bob arhosiad dros nos.

## Senedd yr Alban

Mae manylion am y lwfansau llety a theithio ar gyfer Aelodau Senedd yr Alban wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Treuliau'r Aelodau.[4]

### Costau llety

Mae Aelodau Senedd yr Alban yn gallu hawlio am gostau llety yng Nghaeredin pan fydd yn ofynnol iddynt aros yno er mwyn cyflawni dyletswyddau seneddol. Mae cymhwysedd ar gyfer hyn yn dibynnu ar ba grŵp y mae prif breswylfa Aelod Senedd yr Alban yn perthyn iddo. Mae tri grŵp y mae'r etholaethau a'r rhanbarthau wedi'u trefnu ynddynt, yn seiliedig ar bellter o Gaeredin.

Gall yr Aelodau y mae eu prif breswylfa yng Ngrŵp Dau (yn debyg i'r ardal ryngol a ddefnyddir ym Mhenderfyniad y Bwrdd Taliadau ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau), hawlio costau llety dros nos am bob noson y mae'n ofynnol iddynt fod yng Nghaeredin.

Mae Aelodau Senedd yr Alban y mae eu prif breswylfa yng Ngrŵp Dau ond sy'n anabl neu sydd â chyfrifoldebau gofalu am ddibynyddion yn cael eu trin fel pe baent yn Grŵp Tri. Bydd Llywydd y mae ei brif breswylfa yng Ngrŵp Dau yn cael ei drin fel pe bai yng Ngrŵp Tri.

Gall yr Aelodau y mae eu prif breswylfa yng Ngrŵp Tri (yn debyg i'r ardal allanol a ddefnyddir ym Mhenderfyniad y Bwrdd Taliadau ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau), naill ai hawlio costau llety dros nos am bob noson y mae'n ofynnol iddynt fod yng Nghaeredin **neu** brydlesu eiddo yng Nghaeredin. Gall yr Aelodau sy'n prydlesu eiddo hawlio am y costau a ganlyn:

- Rhent
- Y dreth gyngor
- Dŵr
- Cyfleustodau
- Telathrebu

[4] Senedd yr Alban, *Cynllun Ad-dalu Treuliau Aelodau* (Saesneg yn unig) https://www.parliament.scot/msps/-/media/d4b710e056344fa18b0d98accd801e7b.ashx / Ceir manylion am y cyfraddau presennol ar wefan Senedd yr Alban: https://www.parliament.scot/msps/members-expenses/allowances-rates [Fel ym mis Rhagfyr 2023]

- Yswiriant cynnwys
- Costau ffactoreiddio ac eithrio atgyweiriadau cyffredin

Ni chaiff Aelodau Senedd yr Alban sy'n byw yng Nghaeredin hawlio’r costau uchod oni bai eu bod yn gallu dangos y byddai'n afresymol iddynt ddefnyddio'r breswylfa honno.

Mae cyfraddau 2023-24 ar gyfer darpariaeth llety Caeredin yn £19,700. Y gyfradd dros nos yw £215 (gan gynnwys swper, gwely a brecwast).

### Llety dros nos y tu allan i Gaeredin

Gall Aelodau Senedd yr Alban hawlio am gost llety dros nos y tu allan i Gaeredin ond o fewn y DU am bob noson pan fydd cyflawni dyletswyddau seneddol yn atal yr Aelod rhag defnyddio prif breswylfa’r Aelod, neu unrhyw breswylfa arall.

Yn gyffredinol, ni all yr Aelodau hawlio am lety dros nos o fewn yr etholaeth neu’r rhanbarth y maent yn ei chynrychioli oni bai bod yr etholaeth neu’r rhanbarth hwnnw wedi’i restru yn Atodiad B o’r Cynllun Treuliau Aelodau neu, yn ôl y canllawiau, dim ond yn achos Aelodau a gaiff eu hailethol naill ai o Etholaeth Gogledd Cunninghame neu o ranbarth Gorllewin yr Alban, lle mae’r gofyniad am lety dros nos yn codi mewn cysylltiad â chyflawni dyletswyddau seneddol ar ynys yn etholaeth Gogledd Cunninghame.

Roedd cyfraddau 2023-24 ar gyfer llety dros nos y tu allan i Gaeredin ac eithrio Llundain Fwyaf yn £215 (gan gynnwys swper, gwely a brecwast) ac ar gyfer Llundain Fwyaf a thu allan i’r DU roedd yn £250 (gan gynnwys swper, gwely a brecwast).

### Teithio

Gall Aelodau Senedd yr Alban hawlio am deithiau a wneir wrth gyflawni eu dyletswyddau seneddol yn y DU. Gallant hawlio am deithiau rhwng unrhyw fannau lle cyflawnir dyletswyddau seneddol neu rhwng lleoedd o’r fath a’u preswylfa neu lety dros nos. Caiff teithiau staff eu cwmpasu yn yr un sefyllfaoedd (ni chwmpasir teithiau cymudo).

Mae angen gwneud cais i deithio y tu allan i’r DU cyn i unrhyw deithio ddigwydd.

Yn 2023-24 roedd cyfraddau ad-dalu milltiredd yn unol â chyfraddau CThEF.

## Gogledd Iwerddon

Mae cyflogau a threuliau Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi'u nodi ym Mhenderfyniad Aelodau'r Cynulliad (Cyflogau a Threuliau) (Gogledd Iwerddon). Gan nad oes Gweithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd, mae Cynulliad Gogledd Iwerddon yn gweithredu o dan Benderfyniadau a osodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, gyda chyflogau a threuliau is.

Er mwyn cymharu, mae'r isod wedi'i dynnu o Benderfyniad 2020[5], sy'n darparu dealltwriaeth o'r model a lefel y cymorth teithio a llety a fyddai ar waith o dan amgylchiadau arferol.

Mae gan Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol hawl i ddau lwfans teithio:

- Lwfans teithio blynyddol etholaeth
- Lwfans teithio blynyddol y Cynulliad

Pennir gwerth y lwfans drwy gyfeirio at yr etholaeth y mae'r Aelod yn ei chynrychioli.

Mae'r lwfans teithio etholaethol yn caniatáu teithio o fewn etholaeth yr Aelod, ac roedd yn amrywio o £250 i £1250 yn 2020.

Mae lwfans teithio y Cynulliad yn caniatáu teithio o etholaeth yr Aelod i'r Cynulliad, ac roedd yn amrywio o £600 i £6200 yn 2016. I fod â hawl i'r lwfans llawn, rhaid i'r Aelod fynychu'r Cynulliad am 72 diwrnod gwaith neu fwy y flwyddyn. Gostyngir y lwfans gan 1 y cant am bob diwrnod gwaith sy'n llai na'r hyn y mae'r Aelod yn ei fynychu.

Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Penderfyniad ar gyfer llety dros nos.

---

[5] Cynulliad Gogledd Iwerddon, *Penderfyniad Aelodau'r Cynulliad (Cyflogau a Threuliau) (Gogledd Iwerddon) 2016 fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad Aelodau'r Cynulliad (Cyflogau a Threuliau) (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2020* (Saesneg yn unig) http://www.niassembly.gov.uk/globalassets/documents/your_mlas/determinations/assembly-members-salaries-and-expenses-determination-northern-ireland-2016-as-amended.pdf

# 5. Cymorth Llety a Theithio: Enghreifftiau rhyngwladol

Mae llawer o seneddau yn darparu ar gyfer ad-dalu costau llety a theithio yr aiff seneddwyr iddynt mewn perthynas â'u dyletswyddau seneddol. Gall model a graddfa'r cymorth hwn amrywio'n sylweddol, gyda nifer o'r gwledydd Nordig yn benodol yn gweithredu model gwahanol iawn sy'n cynnwys darparu llety sy'n eiddo i'r senedd.

Mae'r adran hon o'r papur yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael mewn nifer o seneddau. Er bod cymhariaeth uniongyrchol o union werth ariannol[6] y cymorth hwn yn heriol o ystyried y gwahanol gyd-destunau economaidd y mae seneddau'n gweithredu ynddynt, mae'r enghreifftiau hyn yn rhoi cipolwg ar sut y gellir cynllunio cymorth o'r fath, a'r egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau. Nodir y system etholiadol sydd ar waith ym mhob un o'r enghreifftiau hyn, er mwyn helpu i ystyried a oes angen i newidiadau arfaethedig i system etholiadol y Senedd, sef symud i etholaethau aml-aelod mwy, lywio penderfyniadau am y Lwfans Gwariant ar Lety Preswyl a lwfansau teithio ar gyfer y Seithfed Senedd.

## Iwerddon – Yr Oireachtas

***Y system etholiadol:*** *Etholir Aelodau i etholaethau aml-aelod o 3-5, o dan y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy*

Mae gan Aelodau Dáil Éireann hawl i Lwfans Safonol Seneddol blynyddol. Mae'n cynnwys dwy elfen[7]:

- Lwfans Llety a Theithio
- Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus

[6] Lle mae'r wybodaeth ar gael, mae cyfraddau lwfansau teithio a llety amrywiol wedi'u cynnwys yn yr arian cyfred a restrir yn y deunydd ffynhonnell. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu cyfraddau yn neddfwrfeydd y DU yn uniongyrchol. Byddai cymhariaeth o'r fath yn seiliedig ar gyfraddau cyfnewid cyfredol, ond efallai na fyddai ychwaith yn rhoi cyfrif llawn am y cyd-destunau economaidd penodol y mae'r gwahanol ddeddfwrfeydd yn gweithredu ynddynt, na'r ardal ddaearyddol y mae cynrychiolwyr etholedig yn ei gwasanaethu.

[7] **https://www.oireachtas.ie/en/members/salaries-and-allowances/parliamentary-standard-allowances/** [Fel ar 24.10.23]

O dan y Lwfans Safonol Seneddol, gall Aelodau Dáil Éireann hawlio'r costau llety a theithio a ganlyn – rhent, ardrethi, a thaliadau eraill o'r fath mewn perthynas â swyddfa neu swyddfeydd.

Mae'r Lwfans Llety a Theithio yn cynnwys teithio i Leinster House ac oddi yno, llety dros nos, teithio o fewn yr etholaeth a theithiau eraill at ddibenion seneddol. Mae swm y Lwfans Llety a Theithio y gall Aelod ei hawlio yn seiliedig ar y pellter y mae ei breswylfa arferol o Leinster House, yn ôl y llwybr ymarferol byrraf. Rhoddir yr Aelodau mewn un o dri band ar ddeg:

| Band | Pellter | Aelodau Dáil Éireann (blynyddol) | Deiliaid swyddi (blynyddol) |
|---|---|---|---|
| Dulyn | <25km | €9000 | €6300 |
| 1 | >25km ond <60km | €25,295 | €22,011 |
| 2 | <90km | €27,315 | €24,435 |
| 3 | >90km ond <120km | €28,665 | €26,055 |
| 4 | >120km ond <150km | €29,669 | €27,260 |
| 5 | >150km ond <180km | €30,015 | €27,675 |
| 6 | >180km ond <210km | €30,350 | €28,076 |
| 7 | >210km ond <240km | €30,685 | €28,478 |
| 8 | >240km ond <270km | €31,365 | €29,295 |
| 9 | >270km ond <300km | €32,035 | €30,098 |
| 10 | >300km ond <330km | €32,715 | €30,915 |
| 11 | >330km ond <360km | €33,395 | €31,731 |
| 12 | >360km | €34,065 | €32,535 |

Mae'r Lwfans Llety a Theithio yn seiliedig ar bresenoldeb 150 diwrnod yn Leinster House. Rhaid i'r Aelodau gofrestru eu presenoldeb am o leiaf 120 diwrnod y flwyddyn i gadw eu lwfans llawn. Cymhwysir gostyngiad o 1 y cant ar gyfer pob diwrnod a fynychir llai na 120 diwrnod.

Ar ddiwedd y flwyddyn rhaid i bob Aelod dystio bod y swm a dalwyd iddo wedi'i gymhwyso mewn perthynas â threuliau a dynnwyd at y diben a bennir yn y rheoliadau. Cyhoeddir datganiadau misol a blynyddol o swm y Lwfans Safonol Seneddol y mae pob Aelod wedi'i dderbyn ar wefan yr Oireachtas.

## Seland Newydd

***Y system etholiadol:*** *System cynrychiolaeth gyfrannol aelodau cymysg yn ethol 120 o seddi; etholaethau un aelod. Mae pob ardal bleidleisio wedi'i chwmpasu gan etholwyr cyffredinol ac etholaeth Māori; mae pob etholaeth yn dewis Aelod Seneddol i'w cynrychioli, a hefyd yn cael pleidlais plaid.*

Mae manylion am gymorth llety a theithio i Aelodau Senedd Seland Newydd wedi'u nodi mewn dau le:

1. Penderfyniad yr Aelodau Seneddol (Gwasanaethau Llety i'r Aelodau a Gwasanaethau Teithio i Aelodau'r Teulu).[8]
2. Cyfarwyddiadau'r Llefarydd.[9]

Mae'r Penderfyniad yn cynnwys cymalau sy'n diffinio 'cartref' a 'diben seneddol'.[10]

**'Cartref'**[11]

- Cartref Aelod yw Wellington os yw ei etholaeth yn bennaf yn ardal gymudo Wellington neu os yw'r Aelod yn byw'n barhaol yn ardal gymudo Wellington.
- Os mai'r Aelod yw'r Llefarydd, y Dirprwy Lefarydd, Gweinidog neu Arweinydd yr Wrthblaid, cartref yr Aelod yw'r man y mae'r Aelod yn ei gynnal a ble byddai'n byw fel arfer pan nad yw'n ymwneud â dibenion gweinidogol neu seneddol yn Wellington.
- Unrhyw achos arall yw'r man lle mae'r Aelod yn byw fel arfer pan nad yw'n ymwneud â dibenion gweinidogol neu seneddol yn Wellington.

Ystyr **'diben seneddol'** yw gweithgaredd a gyflawnir gan Aelod (neu, fel sy'n berthnasol, ymgeisydd etholiadol cymwys) wrth gyflawni ei rôl a'i swyddogaethau fel Aelod Seneddol (gan

[8] Penderfyniad Aelodau Seneddol (Gwasanaethau Llety i'r Aelodau a Gwasanaethau Teithio i Aelodau'r Teulu) 2023 (Saesneg yn unig) https://www.legislation.govt.nz/regulation/public/2023/0195/latest/whole.html#LMS876387 [Fel ar 18.12.23]
[9] Cyfarwyddiadau'r Llefarydd 2023 (Saesneg yn unig) https://www.parliament.nz/cy/pb/parliamentary-rules/directions-determinations/speaker-s-directions-2023/ [Fel ar 18.12.23]
[10] Penderfyniad Aelodau Seneddol (Gwasanaethau Llety i'r Aelodau a Gwasanaethau Teithio i Aelodau'r Teulu) 2023 (Saesneg yn unig) https://www.legislation.govt.nz/regulation/public/2023/0195/latest/whole.html#LMS876387 [Fel ar 18.12.23]
[11] Ibid.

gynnwys gweithgaredd a gyflawnir gan yr Aelod fel aelod o blaid, ar yr amod nad yw'n etholiad neu'n uniongyrchol gysylltiedig â gweinyddu neu reoli plaid).[12]

## Llety yn Wellington i'r Aelodau

Gall Aelod Seneddol hawlio costau llety yn Wellington os yw ei brif breswylfa y tu allan i ardal gymudo Wellington ac nad yw'n cael preswylfa ar gost gyhoeddus.

Mae'r cyfraddau'n seiliedig ar amcangyfrif o renti'r farchnad ar gyfer 'eiddo addas' yng nghanol Wellington, gyda chyfraniad at, ond nid ad-daliad llawn, o dreuliau eraill sy'n ymwneud ag eiddo fel cyfleustodau, gwasanaethau glanhau a gwasanaethau garddio.

Gall yr Aelodau ddewis hawlio llety parhaus (rhent) neu lety nad yw'n barhaus (gwesty). Mae'r cyfraddau ym Mhenderfyniad 2023 fel a ganlyn[13]:

- Llety parhaus: $36,400 y flwyddyn
- Llety nad yw'n barhaus: treuliau gwirioneddol a rhesymol yn cael eu hawlio hyd at uchafswm nosweithiol o $260 (eiddo masnachol) a $70 (eiddo arall), gyda chap blynyddol o $36,400

Mae'r Penderfyniad yn gwneud darpariaeth ar gyfer llety a rennir, gyda'r cyfanswm sy'n daladwy i Aelod yn cael ei leihau'n gymesur ar sail faint o bobl sy'n rhannu'r llety.

Gellir hawlio costau llety am hyd at bedair wythnos ar ôl i unigolyn beidio â bod yn Aelod Seneddol.

### Darpariaethau arbennig ar gyfer deiliaid swyddi ychwanegol[14]

Mae'r Penderfyniad yn gwneud darpariaethau ar gyfer preswylfa swyddogol, taliad llety parhaus neu drefniant ad-dalu i'r Prif Weinidog, ac (os yw ei brif breswylfa y tu allan i ardal gymudo Wellington) y Llefarydd, y Dirprwy Lefarydd a'r Gweinidogion.

[12] Ibid.
[13] Ibid.
[14] Ibid.

Os na fydd deiliaid y swyddi ychwanegol hyn yn aros mewn preswylfeydd swyddogol, mae eu taliad llety parhaus wedi'i gapio ar $52,000 y flwyddyn (Penderfyniad 2023). Os byddant yn dewis llety nad yw'n barhaus, cymhwysir cap nosweithiol o $350.

## Llety heb fod yn Wellington[15]

Gwneir darpariaeth hefyd i Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol hawlio costau llety y tu allan i Wellington pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau at ddibenion seneddol ac na ellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt deithio i'w cartref drwy ddulliau confensiynol neu ddiogel. Ystyrir yn gyffredinol fod hyn 80km o'u prif breswylfa.

